CYNRYCHIOLWYR RHIANT-LYWODRAETHWYR AR BWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

Canolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Ysgol Addysg Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Campws Townhill, ABERTAWE SA2 7NB
FFôn: 01792 518609 / 01792 518610 Ffacs: 01792 518616
Ebost: steve.gullick@sihe.ac.uk neu karen.evans@sihe.ac.uk

Mawrth 2006

CYFLWYNIAD

Ym 1999, cyflwynwyd rheoliadau Addysg (Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr) (Cymru) sy'n datgan bod yn rhaid ethol cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir fel aelodau o bwyllgorau yn ymwneud ag addysg. Roedd yn rhaid cwblhau'r etholiadau a'r penodiadau erbyn 1 Mehefin 2000.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn gan Ganolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil ym mis Medi 2005, ychydig dros bum mlynedd ar ôl y penodiadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr (CRhLwyr) cyntaf.

Dosbarthwyd holiadur (Atodiad A) i bob un o'r 45 CRhL yn yr Awdurdodau Lleol ar draws Cymru. Yn ddiweddarach adroddwyd i'r Canolfan fod un CRhL wedi ymddiswyddo, felly ar adeg yr arolwg dim ond 44 CRhL oedd mewn swydd. Dychwelwyd 25 holiadur wedi'u cwblhau at y Canolfan o 16 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 57%.

DADANSODDIAD

1 GWYBODAETH GYFFREDINOL

1.1 Nid oes cysondeb yn y nifer o Gynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a benodwyd ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Dangosir y dosbarthiad ymhlith yr awdurdodau lleol Cymreig ar adeg yr arolwg yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr mewn swydd ymhob awdurdod lleol

Nifer y CRhLwyr mewn swydd	Nifer o awdurdodau lleol
0	1
1	4
2	12
3	3
4	2

1.2 Gwybodaeth Bersonol

Mae'r rhan fwyaf o'r atebwyr yn y garfan 41-50 mlwydd oed gyda 15 o'r 25 atebydd (8 benyw, 7 gwryw) yn perthyn i'r garfan hon. Mae pum atebydd (4 benyw, 1 gwryw) yn y garfan 31-40 mlwydd oed a phum atebydd (1 benyw, 4 gwryw) yn y garfan dros 50 oed.

Mae pedwar ar hugain o'r atebwyr yn disgrifio'u tarddiad ethnig fel “gwyn”, tra bod un yn ei ddisgrifio'i hun fel “Cymreig”.

Mae'r rhan fwyaf o'r atebwyr (15) wedi bod yn Gynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr am rwng un a thair blynedd, gyda 6 wedi gwasanaethu am lai nag un flwyddyn, a 4 am fwy na thair blynedd.

1.3 Pwyllgorau

Mae'r holl atebwyr yn gwasanaethu ar Bwyllgor Craffu eu Cyngor sy'n delio ag addysg, er bod teitl y pwyllgor yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Mae'r cyfryw amrywiad mewn teitlau'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r awdurdod yn trefnu ei wasanaeth addysg ac yn aml, y ffordd y mae'n gysylltiedig â gwasanaethau eraill, e.e. Pwyllgor Plant, Teuluoedd a Dysgu Gydol Oes (Powys) Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Plant Integredig (Merthyr Tudful).

Yn ogystal â gwasanaethu ar bwyllgorau craffu, mae nifer o’r atebwyr (6) yn gwasanaethu ar fforymau neu weithgorau hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y Gweithgor Gwella Ysgolion a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, er mae'r mwyaf cyffredin yw'r Fforwm Derbyn Ysgolion, gyda 3 o'r 6 atebydd hynny yn gwasanaethu arno.

1.4 Pynciau a drafodwyd yn y pwyllgorau

Gofynnwyd i'r atebwyr restru rhai o'r pynciau "a drafodwyd gennych mewn cyfarfodydd pwyllgor".

Ni roddwyd rhestr awgrymedig o bynciau i annog yr atebwyr, ac ni ofynnwyd i'r atebwyr nodi faint o amser a neilltuwyd i unrhyw bynciau arbennig na rhoi unrhyw arwydd o bwysigrwydd tybiedig y pynciau gwahanol. Yn yr un modd, ni ofynnwyd i atebwyr restru nifer arbennig o bynciau. Serch hynny, mae'n ddiddorol nodi'r modd y cafodd yr un pynciau eu crybwyll gan nifer o atebwyr. Rhestrir y pynciau mwyaf cyffredin a nodwyd gan atebwyr yn Nhabl 2.

Tabl 2: Pynciau a drafodwyd mewn Cyfarfodydd Pwyllgor

Teitl y Pwnc	Y nifer o atebwyr a restrodd y pwnc hwn fel un a drafodwyd mewn pwyllgor
Cyllidebau	8
Gostyngiad mewn niferoedd/ad-drefnu ysgolion	8
Perfformiad yr ysgol	8
Trafnidiaeth	4
Adeiladau ysgol	3
Prydau ysgol	3

1.5 Casgliadau

Mae amrediad cyfartal o atebwyr gwryw a benyw ymhlith y Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr ar bwyllgorau craffu awdurdod lleol (13 benyw, 12 gwryw), ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn y garfan 41-50 mlwydd oed. Yn y garfan 31-40, roedd mwy o CRhLwyr yn fenywod nag yn wrywod mewn cymhareb o 4 i 1, tra bo'r gwrthwyneb yn wir yn y garfan 50+, gyda mwy o wrywod na benywod mewn cymhareb o 4 i 1. Fodd bynnag, mae'r ymateb yn rhy fach i ganiatáu dod i unrhyw gasgliadau arwyddocaol ar sail y casgliad hwn. Mae'n nodedig mai gwyn yw tarddiad ethnig y mwyafrif llethol o'r atebwyr.

Gan na roddwyd unrhyw gymorth i'r atebwyr wrth ddewis y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfodydd pwyllgor, mae'n ddiddorol nodi bod cyllidebau, gostyngiad mewn niferoedd/ ad-drefnu ysgolion a pherfformiad ysgolion, bob un wedi cael eu crybwyll gan 8 atebydd.

2 PROFIAD PWYLLGOR FEL CYNRYCHIOLYDD RHIANT-LYWODRAETHWR

2.1 Holwyd yr atebwyr ynghylch eu profiad pwyllgor fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr, a dangosir eu hymatebion yn Nhabl 3.

Tabl 3: Profiad Pwyllgor fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Ddim yn cytuno nac anghytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**
Disgwylir i mi chwarae rhan lawn ym mhob trafodaeth Bwyllgor	7	11	5	-	2
Disgwylir i mi gyfrannu pan drafodir eitemau addysgol yn unig	1	3	7	8	6
Nid wyf wedi cael unrhyw anogaeth i gymryd rhan ym musnes y Pwyllgor	1	4	3	9	8

2.2 Ac eithrio dau, mae'r atebwyr yn teimlo bod disgwyl iddynt chwarae rhan lawn ym mhob trafodaeth bwyllgor a theimlai pob un ond 5 eu bod wedi cael eu hannog i gymryd rhan ym musnes y pwyllgor. Yn wir, sylwodd un atebydd *"Teimlaf fy mod wedi gwneud cyfraniad pwysig i'r polisi drafft ar drefniant ysgolion bychain."* Ond mae atebydd arall o'r un awdurdod yn dweud "*Nid wyf wedi derbyn unrhyw anogaeth i gymryd rhan yn y Pwyllgor."* Ategir y safbwynt hwn gan atebydd arall o awdurdod gwahanol *"Mewn pwyllgorau ble mae nifer fawr o aelodau, mae'n anodd cael gair i mewn neu eich cymryd o ddifrif",* er bod yr un atebydd yn ychwanegu *"mewn pwyllgorau a gweithgorau llai rwyf wedi gallu cyfrannu'n effeithiol i drafodaeth."* Yn olaf, mae atebydd arall yn sylwi "*Rwyf yn chwarae rhan lawn oherwydd bod gen i'r cymhelliant i wneud felly"*, er nad ydynt yn dweud a yw'r cymhelliant hwn yn hunangynyrchedig neu'n ganlyniad i anogaeth gan eu hawdurdod.

2.3 Gofynnwyd i'r atebwyr roi eu sylwadau am eu dealltwriaeth o'u hawliau pleidleisio. O'r 25 atebydd, roedd 21 yn deall eu hawliau pleidleisio mewn pwyllgor yn iawn. O blith y 4 nad oeddynt yn sicr ynghylch eu hawliau pleidleisio, roedd 2 yn dod o'r un awdurdod. Daw'r 2 atebydd arall nad oeddynt yn sicr ynghylch eu hawliau pleidleisio o wahanol awdurdodau. Yn olaf, o blith y 4 atebydd nad oeddynt yn sicr ynghylch eu hawliau pleidleisio, mae un wedi bod mewn swydd am 3 mis yn unig, er bod y lleill wedi bod yn CRhLwyr am 11 mis, 14 mis a 5 mlynedd yn ôl eu trefn.

2.4 Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r atebwyr yn dangos agwedd gadarnhaol ynghylch eu profiadau o weithio ar bwyllgorau craffu, er bod lleiafrif bychan yn mynegi rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg anogaeth a gânt i gyfrannu i waith pwyllgor. Yn yr un modd, mae lleiafrif bychan yn ansicr ynghylch eu hawliau pleidleisio.

2.5 Argymhellion

Ble bo'n gymwys, dylai AALlau egluro'u hawliau pleidleisio i Gynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr, ac amlygu pwysigrwydd eu cyfraniad i waith y pwyllgorau craffu.

3 HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH

3.1 Gofynnwyd i'r atebwyr ynghylch darpariaeth hyfforddiant gan eu hawdurdod ar eu rôl fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr. Dim ond lleiafrif o'r atebwyr (11 o'r 25) sy'n adrodd eu bod wedi cael cynnig y cyfryw hyfforddiant gan eu hawdurdod. Dywedir mai sesiynau sefydlu byr yw'r math o hyfforddiant a gynigir.

3.2 Yn ogystal, fel y gwelir yn Nhabl 4, mae hyfforddiant a chefnogaeth gyfyngedig gan awdurdodau lleol yn effeithio ar berfformiad CRhLwyr yn eu gwaith.

Tabl 4: Hyfforddiant a Chefnogaeth

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Ddim yn cytuno nac anghytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**
Rwyf wedi derbyn digon o hyfforddiant i ganiatáu i mi chwarae rhan ystyrlon mewn Pwyllgor fel Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr	1	5	4	9	6
Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi bod yn gefnogol ac yn wasanaethgar iawn yn datblygu fy rôl fel CRhL mewn Pwyllgor	3	3	9	7	3
Mae fy rôl fel CRhL yn cael ei rhwystro oherwydd diffyg hyfforddiant a chefnogaeth gan yr Awdurdod Addysg Lleol.	1	2	6	10	6
Mae fy ngallu i chwarae rhan ystyrlon fel CRhL mewn Pwyllgor yn gwella gyda phrofiad a hyder	7	14	2	2	-
Rwyf yn ansicr ynghylch fy rôl fel CRhL	3	6	4	9	3

3.3 Mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r atebwyr (15 o'r 25) yn teimlo i raddau mwy neu lai eu bod wedi derbyn hyfforddiant annigonol er mwyn medru cyflawni eu rôl fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr (gweler Tabl 4), tra bod 10 atebydd yn teimlo i raddau mwy neu lai nad yw'r AALl wedi bod yn gefnogol iawn yn eu helpu i ddatblygu eu rôl. Mae pob un o'r 10 atebydd hyn sy'n teimlo bod yr AALl heb fod yn gefnogol iawn yn eu helpu i ddatblygu eu rôl yn teimlo hefyd bod eu hyfforddiant yn annigonol.

Mae nifer o atebwyr wedi sylwi ar eu diffyg cefnogaeth: "*Rwy'n cael fy ngadael ar fy mhen fy hun"*; *"Nid oes llawer o neb wedi cysylltu â mi rhwng cyfarfodydd"*; *"Dim cefnogaeth ystyrlon".* Ar y llaw arall, mae dau atebydd wedi rhoi sylwadau ffafriol am

yr anogaeth a gawsant gan Gadeirydd y Pwyllgor. Mae'r cyntaf yn dweud,*"mae'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd wedi rhoi rhywfaint o help i mi"*, tra bo'r ail yn sylwi *"Mae'r Cadeirydd yn fy annog i siarad"*, ond yna ychwanegodd *"ond mae gwleidyddiaeth cyngor, h.y. safbwyntiau a barnau'r aelodau, yn dueddol o ennill y dydd".*

3.4 Er gwaethaf y diffyg hyfforddiant ac anogaeth, mae'r mwyafrif llethol o'r atebwyr (21) yn teimlo bod eu gallu i chwarae rhan ystyrlon yn gwella gyda phrofiad a hyder (gweler Tabl 4). Fel y dywedodd un atebydd, *"Ni chefais unrhyw hyfforddiant nac arweiniad, ond pan oedd ei angen arnaf, gofynnais i swyddog neu gynghorydd"*. Cafodd y profiad hwn ei ailadrodd gan ail atebydd*, "Rwyf wedi dysgu fy rôl wrth i mi fynd yn fy mlaen".*

3.5 Mae'n werth nodi bod rhai CRhLwyr o'r un awdurdod wedi rhoi gwahanol ymatebion i'r cwestiwn p'un ai oedd eu AALl wedi cynnig hyfforddiant ai peidio.

3.6 Mae'r ffenomen hon yn digwydd mewn 5 AALl. Mewn pedwar achos, mae'r atebwyr sy'n dweud na chawsant gynnig hyfforddiant wedi bod mewn swydd am gyfnod cymharol fyr, ac felly, efallai nad oeddynt yn CRhLwyr pan gynigiwyd hyfforddiant. Fodd bynnag, yn un AALl mae'r atebydd sydd wedi gwasanaethu'n hirach yn dweud na chafodd gynnig hyfforddiant tra roedd yr atebydd a oedd wedi gwasanaethu am lai o amser yn dweud ei fod wedi cael ei gynnig.

3.7 Mae rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl y CRhL. Mae naw atebydd yn adrodd eu bod, i raddau mwy neu lai, yn ansicr ynghylch eu rôl (gweler Tabl 4). Nododd un *" Mae'n ymddangos nad oes llawer o gynsail mewn perthynas â rôl y CRhL. Gall hyn fod braidd yn ddryslyd."* Dywed un arall*"Mae rôl y CRhL ar y Pwyllgor Craffu yn aneglur."*

3.8 Fodd bynnag, y maes lle mae'r atebwyr yn adrodd y gefnogaeth leiaf gan AALlau yw maes cyfleusterau (gweler Tabl 5)

Tabl 5: Cefnogaeth Cyfleusterau

Cyfleuster a ddarparwyd gan yr AALl ar gyfer y CRhL	**Y nifer o atebwyr a gafodd gynnig y cyfleuster hwn gan eu AALl**
Cyfleusterau cyfrifiadurol	1
Cyfleusterau ffôn	3
Cyfleusterau post	3
Lle ar wefan	1
Cefnogaeth ysgrifenyddol	3
Lle mewn swyddfa	1

3.9 Yn gyffredinol darperir ychydig iawn o gyfleusterau ar gyfer atebwyr. Mae'r prinder difrifol hwn yn cael ei ddwysáu gan y ffaith fod yr atebion i Dabl 5 yn dod oddi wrth 4 atebydd yn unig. Golyga hyn fod 21 atebydd yn honni nad yw eu hawdurdodau lleol yn darparu unrhyw un o'r cyfleusterau a restrir yn Nhabl 5 ar eu cyfer.

3.10 Mae'r 25 atebydd yn yr arolwg yn cynrychioli 16 o'r 21 AALl sydd â CRhLwyr yn gwasanaethu ar bwyllgorau craffu ar hyn o bryd. Mae'n amhosib sylwi ar y

cyfleusterau a ddarperir neu na ddarperir gan y 5 AALl hynny y mae eu CRhLwyr heb ymateb i'r arolwg.

3.11 Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod 2 o'r atebwyr sy'n adrodd bod cyfleusterau'n cael eu darparu ar eu cyfer yn CRhLwyr yn yr un AALl â'r atebwyr sy'n dweud nad ydynt yn cael unrhyw gyfleusterau gan yr AALl.

3.12 Casgliad

Tra bod dryswch ynghylch darpariaeth hyfforddiant a chyfleusterau gan AALlau ar gyfer eu CRhLwyr, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o'r naill na'r llall a ddarperir yn gyffredinol. Er bod y rhan fwyaf o'r atebwyr yn teimlo bod eu gallu i chwarae rhan ystyrlon mewn pwyllgor craffu yn gwella, mae hyn bron yn gyfan gwbl o ganlyniad i'r cynnydd yn eu profiad a'u cymhelliant personol. Mae'r ffaith na allant chwarae rhan lawnach yng ngwaith y pwyllgorau craffu yn cael ei ddwysáu gan y diffyg eglurder y mae nifer o'r atebwyr yn teimlo ynghylch eu rôl.

Yn ogystal â'r hyfforddiant cyfyngedig a gynigir i'r CRhLwyr, mae'r AALlau yn darparu ond ychydig gyfleusterau i'r CRhLwyr hefyd.

3.13 Argymhellion

Dylai pob AALl ddarparu hyfforddiant sefydlu ar gyfer CRhLwyr newydd. Gellid gwella'r sefyllfa hon drwy ddarparu canllawiau cenedlaethol a fyddai'n sicrhau elfen o unffurfiaeth. Dylid annog AALlau i ystyried darparu cyfleusterau i helpu CRhLwyr i gyflawni eu rôl hefyd. Yn olaf, dylid darparu canllawiau cenedlaethol ar gyfer CRhLwyr, gan amlinellu eu rolau, pwerau a'u dyletswyddau'n glir, ac awgrymu dull o weithredu.

4 CYSYLLTU Â RHIENI

4.1 Mae'r atebwyr yn nodi anawsterau wrth gysylltu â rhieni. Meddai un atebydd *"Nid oes strwythur sy'n caniatáu hyn",* tra bod un arall yn ychwanegu *"mae cysylltu â rhieni yn anodd iawn ... mae'n anodd goresgyn y logisteg ... nid oes llwybrau cyfathrebu ffurfiol."* Roedd nifer o atebwyr yn anymwybodol bod cysylltu â rhieni yn rhan o'u rôl fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr: *"Nid oeddwn yn ymwybodol bod yn rhaid i mi (ymgynghori â rhieni)"*; *"Nid oeddwn yn ymwybodol y dylwn geisio barnau (rhieni) yn weithredol*."

Ategir y safbwyntiau hyn gan y dystiolaeth ystadegol yn Nhabl 6, sy'n dangos cyn lleied y defnyddir y dulliau a nodir gan y CRhLwyr i gael barn rhieni:

Tabl 6: Y modd y mae Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr yn cael barnau rhieni

Dull o gael barnau	Y nifer o CRhLwyr sy'n eu defnyddio
Cyfarfodydd rheolaidd gyda Rhiant-Lywodraethwyr	5
Drwy'r Gymdeithas Llywodraethwyr leol	6
Drwy gylchlythyr Llywodraethwyr	6
Trefnu cyfarfod cyffredinol pan fo angen	4
Cylchredeg holiadur i rieni	3
Drwy gyfarfodydd CRhA	3
Defnyddio'r rhyngrwyd / gwefan	1

4.2 Er y gwneir ond ychydig ddefnydd o unrhyw un o'r dulliau o gysylltu â rhieni, dylid nodi mai dim ond un atebydd sy'n adrodd ei fod yn defnyddio'r rhyngrwyd neu wefan.

4.3 Amlygir y broblem gyda chysylltu â rhieni ymhellach gan y nifer o ddulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr unigol er mwyn cysylltu â rhieni (Gweler Tabl 7).

Tabl 7: Y nifer o wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr er mwyn cysylltu â rhieni

Y nifer o ddulliau a restrir yn Nhabl 6 a ddefnyddiwyd gan atebwyr er mwyn cysylltu â rhieni	Y nifer o atebwyr a ddefnyddiodd y dulliau hyn o gysylltu â rhieni
8 dull	-
7 dull	-
6 dull	1
5 dull	-
4 dull	-
3 dull	3
2 ddull	2
1 dull	9
0	10

4.4 Fel y dengys yr ystadegau, nid yw 10 o'r atebwyr yn defnyddio unrhyw ddulliau ffurfiol o gysylltu â rhieni. Yn amlwg, fel y gwelir yn y dyfyniadau ym mharagraff 4.1, y logisteg yw un o'r rhesymau Ond hefyd, fe welir yn y rhain nad yw nifer o atebwyr yn ymwybodol neu'n gweld hyn fel rhan o'u rôl o bosib. Gallai hyn egluro i raddau, pan adroddodd 15 atebydd eu bod wedi cael anawsterau wrth gael barn rhieni a 5 eu bod heb gael anhawster, pam na roddodd 5 atebydd unrhyw ymateb; efallai nad oeddynt wedi ystyried bod hyn yn rhan o'u rôl a heb geisio cysylltu â rhieni.

4.5 Adlewyrchir y problemau a gafwyd gan atebwyr wrth gysylltu â rhieni yn y ffordd y maent yn adrodd yn ôl iddynt. Gweler Tabl 8.

Tabl 8: Dulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr i adrodd yn ôl i rieni

Dull o adrodd yn ôl i rieni	**Y nifer o atebwyr a ddefnyddiodd y dull hwn**
Cylchlythyr	6
Gwefan	1
Cyfarfodydd	6
Posteri	-
Y Wasg Leol	3
Eraill	3

4.6 Mae'r nifer o ddulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr yn isel ac mae'n adlewyrchu'r ffigyrau yn Nhabl 6, yn cynnwys y nifer isel (1) sy'n defnyddio gwefan ar gyfer adrodd yn ôl i rieni. Y dulliau “Eraill” yw "mewn person” (2) a “thrwy agenda'r llywodraethwyr”.

4.7 Mae hefyd yn glir nad yw'r rhan fwyaf o atebwyr yn adrodd yn ôl i rieni o gwbl. Gweler Tabl 9.

Tabl 9: Y nifer o wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr i adrodd yn ôl i rieni

Y nifer o ddulliau a restrir yn Nhabl 9 a ddefnyddiwyd gan atebwyr i adrodd yn ôl i rieni	**Y nifer o atebwyr sy'n defnyddio'r dulliau hyn i adrodd yn ôl i rieni**
6 dull	-
5 dull	-
4 dull	1
3 dull	-
2 ddull	4
1 dull	7
0	13

4.8 Casgliad

Mae ffaeleddau mawr yn yr holl faes o gysylltu rhwng atebwyr a rhieni. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o’r rhain yn seiliedig ar logisteg y sefyllfa, h.y. mewn

llawer o achosion, nid oes trefniadau ffurfiol yn bodoli fel y gall atebwyr gysylltu â rhieni ac adrodd yn ôl iddynt. Fodd bynnag, mae nifer o achosion ble mae'r atebwyr naill ai'n anymwybodol y gallai hyn fod yn rhan o'u rôl neu'n teimlo nad yw hyn yn ddyletswydd y dylent ei gweithredu.

4.9 Argymhellion

Dylid annog AALlau i ddarparu a hyrwyddo dulliau ffurfiol o gysylltu â, ymgynghori â, ac adrodd yn ôl i rieni ar gyfer CRhLwyr. Mae'r dryswch ynghylch rôl y CRhLwyr mewn perthynas â chysylltu â rhieni yn pwysleisio'r argymhellion a wnaed ym mharagraff 3.13, sef bod angen darparu canllawiau cenedlaethol ar gyfer CRhLwyr, sy'n amlinellu'n glir eu rolau, pwerau a'u dyletswyddau ynghyd â dull o weithredu awgrymedig.

5 RHWYDWEITHIO A FFYNONELLAU GWYBODAETH

5.1 O blith y 25 CRhL a atebodd yr holiadur, roedd 3 mewn AALlau ble roedd un CRhL yn unig. O ganlyniad mae'r ystadegau a ddangosir yn Nhabl 10 yn seiliedig ar 22 ymateb.

5.2 Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ddangosir yn Nhabl 10 bod cysylltiadau rhwng CRhLwyr yn yr un awdurdod lleol yn ddigynllun gan amlaf. Gweler Tabl 10.

Tabl 10: Rhwydweithio rhwng Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr yn yr un awdurdod lleol

Y nifer o atebwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd â CRhLwyr eraill cyn neu ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i drafod materion addysgol	-
Y nifer o atebwyr sy'n cwrdd o bryd i'w gilydd â CRhLwyr eraill cyn neu ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i drafod materion addysgol	4
Y nifer o atebwyr sy'n cwrdd â CRhLwyr eraill cyn neu ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i drafod materion addysgol yn achlysurol ond yn ddigynllun	9
Y nifer o atebwyr sy'n meddwl bod cyfarfod â CRhLwyr eraill yn amherthnasol	4
O blith y 5 atebydd arall, ni atebodd un, a dywedodd y 4 arall eu bod yn gweld eu cyd-CRhLwyr mewn cyfarfodydd pwyllgor.	

5.3 Mae'r ffaith fod 4 atebydd yn ystyried bod cyfathrebu â'u cyd-CRhLwyr yn amherthnasol yn arbennig o ddiddorol.

5.4 Fodd bynnag, os yw'r drafodaeth o faterion addysgol rhwng CRhLwyr yn yr un AALl yn gyfyngedig ac yn ddigynllun, maent yn cael eu diweddaru ynghylch datblygiadau addysgol mewn nifer o ffyrdd. Gweler Tabl 11. (NODER. Mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar ymatebion gan bob un o'r 25 atebydd.)

Tabl 11: Sut mae Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr yn eu diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau ym myd addysg

Dull o ddiweddaru eu hun ynghylch datblygiadau ym myd addysg	**Y nifer a ddefnyddiodd y dull hwn**
Drwy'r papurau pwyllgor a gylchredwyd ar gyfer y cyfarfodydd	23
AALl yn darparu papurau briffio, nodiadau ac ati	10
Drwy'r wasg a sylw cyfryngau	18
Gwefannau	7
Digwyddiadau hyfforddi llywodraethwyr	11
Siarad â'r Pennaeth (Penaethiaid) Ysgol	15
Arall (yn cynnwys: atebwyr sy'n gweithio ym myd addysg; y rhai sy'n siarad ag athrawon; y rhai sy'n defnyddio Cymdeithas y Llywodraethwyr).	8

5.5 Er mai'r dull mwyaf cyffredin o'u diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol yw drwy bapurau a gylchredir gan yr AALl ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor (23), mae nifer gymharol fechan o atebwyr (10) yn adrodd bod eu AALl yn rhoi papurau briffio a nodiadau iddynt.

5.6 Mae defnyddio'r wasg a'r cyfryngau (18) a siarad â Phenaethiaid ysgol (15) yn ddulliau cymharol boblogaidd gan atebwyr hefyd o'u diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o wefannau'n isel - 7 atebydd oedd yn defnyddio'r dull hwn, yr ymateb isaf. Mae hyn braidd yn annisgwyl efallai, gan fod 20 o'r 25 atebydd dan 50 oed ac yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd â TG na'r atebwyr hŷn.

5.7 Fel y gwelir yn Nhabl 12, mae amrediad eang yn y nifer o ddulliau a ddefnyddir i'w diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol.

Tabl 12: Y nifer o ddulliau a ddefnyddiwyd gan atebwyr i'w diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol

Nifer o ddulliau	Y nifer o atebwyr a ddefnyddiodd y dulliau hyn
7	-
6	1
5	4
4	9
3	4
2	5
1	2

5.8 Ond mae'n eithaf nodedig mai dim ond 2 sy'n dibynnu ar un dull yn unig, gyda'r rhan fwyaf o'r atebwyr yn defnyddio rhwng 3 a 5 dull.

5.9 Casgliadau

Nifer fechan iawn o gyfarfodydd ffurfiol, cynlluniedig sy'n digwydd rhwng y CRhLwyr o'r un AALl er mwyn trafod materion addysgol, a gallai hyn ychwanegu at yr ymdeimlad o arwahanrwydd a adroddir gan 10 atebydd (gweler Tabl 13). Gallai hyn hefyd effeithio er gwaeth ar effeithiolrwydd y CRhLwyr wrth gyflawni eu rolau ar bwyllgorau. Yn gyffredinol, mae'r atebwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i'w diweddaru eu hun ynghylch materion addysgol, er mai cyfyngedig yw'r ddarpariaeth o bapurau briffio ac ati gan AALlau yn ôl yr adroddir gan atebwyr, ac ond ychydig ddefnydd o wefannau.

5.10 Argymhellion

Oherwydd y cyfyngiadau amser a'r ffaith mai dim ond un CRhL mewn swydd sydd mewn AALl weithiau, mae'n anodd dros ben argymell bod CRhLwyr yn neilltuo amser yn ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd cyn pwyllgorau. Serch hynny, mae'n arfer sy'n ddymunol er mwyn osgoi ymdeimlad o arwahanrwydd ac i helpu CRhLwyr i gyflawni

eu rôl yn fwy effeithiol. O ganlyniad, dylid gwneud CRhLwyr yn ymwybodol o werth cyfarfodydd cynlluniedig cyn cyfarfodydd pwyllgor naill ai drwy eu AALl neu drwy ganllawiau cenedlaethol a dylai AALlau ddarparu cyfleuster (e.e. lle mewn swyddfa) fel y gall y cyfryw gyfarfodydd ddigwydd.

Yn gyffredinol, mae atebwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i'w diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol. Er mwyn eu cynorthwyo ymhellach, gallai pob AALl ddarparu gwybodaeth gefndirol am addysg iddynt, ynghyd â chyfeiriadau gwefan AALl neu genedlaethol y gallai CRhLwyr gyfeirio atynt er mwyn eu diweddaru eu hun ynghylch datblygiadau addysgol.

6 ANAWSTERAU A CHYFYNGIADAU

6.1 Gellir gweld yr anawsterau a'r cyfyngiadau a brofwyd gan atebwyr yn Nhabl 13 isod.

Tabl 13: Anawsterau ac/neu gyfyngiadau a brofwyd gan CRhLwyr

Anhawster neu gyfyngiad	Y nifer o atebwyr a brofodd yr anhawster/cyfyngiad hwn.
Anwybodaeth o weithdrefnau pwyllgor	11
Cefnogaeth gyfyngedig gan yr AALl	11
Cefnogaeth gyfyngedig gan Gymdeithas Llywodraethwyr	9
Cefnogaeth gyfyngedig gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (neu gyfwerth)	6
Cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig	16
Yr elfen wleidyddol mewn cyfarfodydd pwyllgor	8
Arwahanrwydd	10
Amser	14
Biwrocratiaeth	6
Agweddau negyddol ymhlith cynghorwyr	5
Ansicrwydd ynghylch fy rôl fel CRhL	10
Rhwydweithio/cysylltu â rhieni eraill	16
Prinder amser rhwng derbyn papurau pwyllgor a'r cyfarfod	5
Pellterau teithio	3
Gwybodaeth annigonol ynghylch rhieni (enwau, cyfeiriadau, ac ati.)	10

6.2 Mae'n amlwg mai'r anawsterau/cyfyngiadau mwyaf a brofwyd gan atebwyr yw'r cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig (16 ateb), a rhwydweithio/cysylltu â rhieni (16 ateb). Fel y dywedodd un atebydd, ynghylch y cyntaf o'r ddau anhawster hyn, *"mae unrhyw gynnydd a wnaed gennyf yn ganlyniad i fy ymdrechion/galluoedd/adnoddau cyfyngedig fy hun",* tra ychwanegodd ail atebydd, wrth gyfeirio at yr anawsterau a gânt gyda rhwydweithio/cysylltu â rhieni eraill *"nid oes strwythur cysylltu yn bodoli".*

6.3 Mae 14 atebydd yn dweud bod amser yn rhwystr iddynt. Mae nifer o atebwyr yn sylwi yn arbennig ar y rhybudd byr neu ddiffyg rhybudd o newidiadau yn amserau cyfarfodydd pwyllgor. *"Mae amser pwyllgorau'n aml yn newid ar fyr rybudd"*; *"Gyrrais 55 milltir i gyfarfod yn Neuadd y Sir ac yno mi gefais for yr amser wedi'i newid."*

6.4 O blith yr 11 atebydd sy'n teimlo'n rhwystredig oherwydd eu hanwybodaeth o weithdrefnau pwyllgor, a'r 11 sy'n dweud eu bod yn derbyn cefnogaeth gyfyngedig gan yr AALl, mae un atebydd yn nodi *"Mae papurau'n cael eu trafod yn y pwyllgor nad ydym wedi derbyn copïau ohonynt! Yn ogystal, mae ein henwau'n cael eu gadael allan ar ddogfennau sy'n rhestru aelodau'r pwyllgor!"* Meddai ail atebydd,*"Mae*

mynd i gyfarfod (pwyllgor) yn brofiad bygythiol iawn ac fel arfer mae'r awyrgylch yn ddigroeso dros ben."

6.5 Mae'r mwyafrif llethol o'r atebwyr (24) yn adrodd eu bod yn cael anawsterau neu'n profi cyfyngiadau wrth gyflawni eu rôl fel Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr am nifer o resymau. Gweler Tabl 14.

Tabl 14: Y nifer o anawsterau/cyfyngiadau a brofwyd gan atebwyr

Y nifer o anawsterau/cyfyngiadau fel y'u rhestrir yn Nhabl 13 a brofwyd gan atebwyr	**Y nifer o atebwyr sydd wedi profi'r anawsterau/cyfyngiadau hyn**
16	-
15	-
14	-
13	-
12	1
11	2
10	1
9	2
8	1
7	3
6	2
5	3
4	2
3	3
2	2
1	2
0	1

6.5 Mae 60% o'r atebwyr (15) wedi profi anawsterau/cyfyngiadau mewn mwy na 4 maes, a dim ond 5 atebydd sydd wedi profi anawsterau neu gyfyngiadau yn 2 faes neu lai. Dim ond 1 atebydd sy'n adrodd nad yw wedi profi unrhyw anawsterau neu gyfyngiadau yn ei rôl fel CRhL.

6.6 Mewn dau achos ble mae 3 CRhL o'r un AALl wedi ymateb, mae graddfa uchel o gysondeb yn y nifer o anawsterau/cyfyngiadau a roddir ganddynt.

6.7 Yn AALl A mae dau atebydd yn adrodd eu bod wedi profi 11 anhawster/cyfyngiad ac mae un atebydd yn adrodd ei fod wedi profi 18 anhawster/cyfyngiad. Yn AALl B mae dau atebydd yn adrodd eu bod wedi profi 7 anhawster/cyfyngiad ac mae un atebydd yn adrodd ei fod wedi profi 4 anhawster/cyfyngiad

6.8 Yn y trydydd achos ble mae 3 CRhL o'r un AALl wedi ateb, mae llai o gysondeb. Mae un atebydd yn adrodd ei fod wedi profi 1 anhawster/cyfyngiad, mae'r ail atebydd yn adrodd ei fod wedi profi 2 anhawster/cyfyngiad ac mae trydydd atebydd yn adrodd ei fod wedi profi 6 anhawster/cyfyngiad

6.9 Casgliadau

Yr anawsterau neu gyfyngiadau mwyaf cyffredin a brofwyd gan atebwyr yw cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig a rhwydweithio/cysylltu â rhieni eraill. Dilynir y rhain gan anwybodaeth o weithdrefnau pwyllgor a chefnogaeth gyfyngedig gan yr AALl. Yr anhawster/cyfyngiad y mae'r nifer leiaf o atebwyr yn cyfeirio ato yw pellterau teithio.

Ar yr un pryd, mae 24 o'r 25 atebydd yn profi o leiaf 1 anhawster/ cyfyngiad, gyda 15 (60%) yn profi mwy na 4 anhawster/cyfyngiad.

6.10 Argymhellion

Gan mai un o'r pryderon mwyaf a fynegir gan yr atebwyr yw cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig, argymhellir bod cynhadledd genedlaethol yn cael ei darparu am ddim ar gyfer CRhLwyr er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon mwyaf. Mae rhwydweithio gyda rhieni, anwybodaeth o weithdrefnau pwyllgor a chefnogaeth gyfyngedig gan AALlau, bob un yn anawsterau y gellir eu datrys gan yr AALlau yn bennaf, er y byddai canllawiau cenedlaethol yn fuddiol. Byddai'r cyfryw ganllawiau yn helpu AALlau i sicrhau bod CRhLwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol.

7 CYNHADLEDD AR GYFER CRhLwyr

7.1 Dywedodd 21 atebydd y byddent yn fodlon mynychu cynhadledd un diwrnod am ddim ynghylch rôl Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr.

7.2 Dywedodd 8 y byddai'n well ganddynt fynychu'r gyfryw gynhadledd ar ddiwrnod gwaith, roedd yn well gan 7 atebydd ddydd Sadwrn, tra bo 6 heb unrhyw farn benodol.

7.3 Fel y gwelir yn Nhabl 15 mae elfen fawr o gytundeb ynghylch pynciau ymhlith y 21 atebydd a ddywedodd y byddent yn fodlon mynychu cynhadledd un diwrnod am ddim.

Tabl 15: Pynciau awgrymedig ar gyfer cynhadledd

Pwnc Awgrymedig	**Y nifer o atebwyr a awgrymodd y pwnc hwn**
Cyfathrebu gyda rhieni	15
Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol	12
Pryderon mwyaf ynghylch rôl y CRhL	13
Rhannu llwyddiannau ac arfer da	17

7.4 Casgliad

Mae elfen fawr o gefnogaeth gan atebwyr am gynhadledd un diwrnod am ddim i Gynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr. Yn ogystal, mae elfen fawr o gytundeb ymhlith yr atebwyr ynghylch y pynciau i'w trin yn y gyfryw gynhadledd.

7.5 Argymhelliad

Dylid trefnu cynhadledd genedlaethol ar gyfer y CRhLwyr, a'r swyddogion a'r aelodau etholedig awdurdod lleol hynny sydd â dyletswyddau a rolau arbennig ym maes craffu, er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn fel pryderon.

8 CASGLIADAU TERFYNOL

8.1 Darperir hyfforddiant cyfyngedig iawn yn unig i CRhLwyr gan awdurdodau lleol.

8.2 Mae'r awdurdodau lleol yn darparu ychydig iawn o gyfleusterau neu gefnogaeth megis cyfleusterau cyfrifiadur a ffôn a chefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer CRhLwyr.

8.3 Mae dryswch ymhlith CRhLwyr ynghylch eu rôl a chaiff hyn ei ddwysáu gan y gefnogaeth gyfyngedig y mae nifer o CRhLwyr yn dweud eu bod yn derbyn gan eu hawdurdodau lleol.

8.4 Mae CRhLwyr yn profi nifer o anawsterau/cyfyngiadau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau mor effeithiol ac y gallent wneud. Y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn fwyaf aml yw cyfleoedd hyfforddi cyfyngedig ac anawsterau sy'n gysylltiedig â rhwydweithio gyda/cysylltu â rhieni.

9 ARGYMHELLION

9.1 Dylai pob awdurdod lleol ymgynghori â CRhLwyr a darparu hyfforddiant sefydlu iddynt, o leiaf. Byddai'r hyfforddiant sefydlu yn cael ei ategu gan ddarpariaeth canllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau elfen o gysondeb a dealltwriaeth sylfaenol o ddiben goruchwyliaeth a chraffu mewn addysg.

9.2 Dylai awdurdodau lleol ddarparu'r cyfleusterau a'r gefnogaeth i CRhLwyr sydd eu hangen arnynt er mwyn medru cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae'n arbennig o bwysig bod cefnogaeth a chyfleusterau yn cael eu darparu a fydd yn caniatáu i CRhLwyr gysylltu â rhieni yn y dull hawsaf posibl.

9.3 Er mwyn helpu CRhLwyr i gyflawni eu rôl yn effeithiol, dylent hwythau a swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdodau dderbyn canllawiau cenedlaethol sy'n egluro eu rolau, pwerau, dyletswyddau, ynghyd â dull o weithredu awgrymedig.

9.4 Dylid trefnu cynhadledd genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn fel pryderon, ar gyfer CRhLwyr, a'r swyddogion ac aelodau etholedig awdurdodau lleol hynny sydd â dyletswyddau a rolau arbennig ym maes craffu.

HOLIADUR YMCHWIL - MEDI 2005

CYNRYCHIOLWYR RHIANT LYWODRAETHWYR
AR BWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

1 GWYBODAETH BERSONOL

1.1 Grŵp Oedran:
18-30 ☐ 31-40 ☐ 41-50 ☐ Dros 50 ☐

1.2 Rhyw:
Gwryw ☐ Benyw ☐

1.4 Tarddiad Ethnig:
Gwyn ☐ Du ☐ Asiaidd ☐ Arall (noder) ……

1.3 Enw'r Awdurdod Addysg Lleol:

……

1.4 Ers faint o amser rydych wedi bod yn Gynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr?

.....

2 PA BWYLLGOR?

2.1 Ar ba Bwyllgor a/neu is-bwyllgor(au) yr Awdurdod Lleol rydych chi'n gwasanaethu fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr?

.....

.....

.....

2.2 Rhestrwch rai o'r pynciau rydych wedi'u trafod yng nghyfarfodydd y pwyllgor/is-bwyllgor:

.....

.....

.....

3 PROFIAD AR BWYLLGORAU FEL CYNRYCHIOLYDD RHIANT LYWODRAETHWYR

3.1 Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno â phob un o'r gosodiadau hyn:

Ticiwch y blwch priodol	**Cytuno'n gryf**	**Cytuno**	**Heb fod yn cytuno na'n anghytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**
Disgwylir i mi chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar waith trafod y Pwyllgor					
Disgwylir i mi gyfrannu pan drafodir eitemau addysgol yn unig					
Ni chefais fy annog i gymryd rhan ym musnes y Pwyllgor					

Sylw: .....

.....

3.2 Ydych chi'n eglur ynghylch eich hawliau pleidleisio ar y Pwyllgor?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

4 HYFFORDDIANT A CHYMORTH

4.1 A gynigiwyd unrhyw hyfforddiant i chi ynglŷn â'ch rôl fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr gan yr Awdurdod Addysg Lleol?

Do ☐ Naddo ☐

4.2 Os do, nodwch y math o hyfforddiant a gynigiwyd, a pha mor aml:

.....

.....

4.3 Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno â phob un o'r gosodiadau hyn:

Ticiwch y blwch priodol	**Cytuno'n gryf**	**Cytuno**	**Heb fod yn cytuno na'n anghytuno**	**Anghytuno**	**Anghytuno'n gryf**
Rwyf wedi cael digon o hyfforddiant i'm galluogi i chwarae rhan ystyrlon ar y Pwyllgor fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr (CRhL)					
Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi bod yn gefnogol iawn ac yn cynnig help o ran datblygu fy rôl fel CRhL ar y Pwyllgor					
Mae ddiffyg hyfforddiant a diffyg cefnogaeth gan yr Awdurdod Addysg Lleol yn rhwystro fy rôl fel CRhL					
Mae fy ngallu i chwarae rhan ystyrlon fel CRhL ar y Pwyllgor yn gwella wrth i mi fagu profiad a hyder					
Rwy'n aneglur ynghylch fy rôl fel CRhL					

Sylw .....

.....

4 HYFFORDDIANT A CHYMORTH (parhad)

4.4 Ydy eich Awdurdod Addysg Lleol wedi cynnig cymorth i chi o ran:

Cyfleusterau cyfrifiadurol	Do	☐	Naddo	☐
Cyfleusterau ffôn	Do	☐	Naddo	☐
Cyfleusterau ar gyfer postio	Do	☐	Naddo	☐
Lle ar wefan	Do	☐	Naddo	☐
Cymorth ysgrifenyddol	Do	☐	Naddo	☐
Lle mewn swyddfa	Do	☐	Naddo	☐

Sylw …….....

…….....

5 YMGYNGHORI Â RHIENI

5.1 Cysylltu â Rhieni
Sut rydych chi'n cael barn rhieni, fel eu cynrychiolydd ar y Pwyllgor?

(a)	Cyfarfodydd cyson â Rhiant Lywodraethwyr	☐ (a)
(b)	Drwy eich Cymdeithas Llywodraethwyr leol	☐ (b)
(c)	Drwy Gylchlythyr Llywodraethwyr	☐ (c)
(d)	Trefnu cyfarfod cyffredinol pan fo angen	☐ (d)
(e)	Cylchredeg holiadur i rieni	☐ (e)
(f)	Drwy gyfarfodydd CRhA	☐ (f)
(g)	Defnyddio Mewnrwyd/Gwefan	☐ (g)
(h)	Arall (noder)…….....……	☐ (h)

Sylw .....…….....

…….....

5.2 Ydych chi wedi ei chael hi'n anodd cael barn rhieni? Os felly, rhowch ragor o fanylion.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Sylw..... .....

.....

.....

5.3 Adrodd yn ôl i Rieni
Sut byddwch chi'n adrodd yn ôl i rieni?

Cylchlythyr	☐	Posteri	☐
Gwefan	☐	Y wasg leol	☐
Cyfarfodydd	☐		

Arall (noder) ……

6 RHWYDWEITHIO A FFYNONELLAU GWYBODAETH

6.1 Fyddwch chi'n cwrdd â'r CRhL eraill cyn neu ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor?

(a) Yn gyson, er mwyn siarad am faterion addysgol ☐ (a)
(b) Yn achlysurol, pan fydd materion arbennig yn codi ☐ (b)
(c) Bob hyn a hyn, ond heb drefnu ymlaen llaw ☐ (c)
(d) Ni chredaf fod hyn yn berthnasol ☐ (d)

Sylw …….....

…….....

6.2 Sut byddwch chi'n dod i wybod am y materion diweddaraf ym maes Addysg?

(a) O bapurau'r Pwyllgor sy'n cael eu cylchredeg ar gyfer y cyfarfodydd ☐ (a)
(b) Mae'r AALl yn rhoi papurau briffio, nodiadau ac ati ☐ (b)
(c) O sylw yn y wasg a'r cyfryngau ☐ (c)
(d) Gwefannau ☐ (d)
(e) Digwyddiadau hyfforddi llywodraethwyr ☐ (e)
(f) Sgwrsio â'r Pennaeth(Penaethiaid) ☐ (f)
(g) Arall (noder) …… ☐ (g)

7 ANAWSTERAU A CHYFYNGIADAU

Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r anawsterau a/neu gyfyngiadau yn eich rôl ar y Pwyllgor fel Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr? (ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol):

(a) Heb fod yn gyfarwydd â threfnau'r Pwyllgor ☐ (a)
(b) Prin yw'r gefnogaeth gan yr AALl ☐ (b)
(c) Prin yw'r gefnogaeth gan y Gymdeithas Llywodraethwyr ☐ (c)
(d) Prin yw'r gefnogaeth gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (neu'n gyfatebol) ☐ (d)
(e) Prin yw'r cyfleoedd hyfforddi ☐ (e)
(f) Y dimensiwn gwleidyddol yng nghyfarfodydd y pwyllgor ☐ (f)
(g) Teimlo'n ynysig ☐ (g)
(h) Amser ☐ (h)
(i) Biwrocratiaeth ☐ (i)
(j) Agweddau negyddol ymysg cynghorwyr ☐ (j)
(k) Ansicrwydd ynghylch fy rôl fel CRhL ☐ (k)
(l) Rhwydweithio/cyswllt â rhieni eraill ☐ (l)
(m) Diffyg amser rhwng derbyn papurau'r pwyllgor a'r cyfarfod ei hun ☐ (m)
(n) Pellteroedd teithio ☐ (n)
(o) Diffyg gwybodaeth ddigonol am rieni (enwau, cyfeiriadau ac ati) ☐ (o)
(p) Arall (noder os gwelwch yn dda) …….. ☐ (p)

Sylw …….....

…….....

8 CYNHADLEDD I GYNRYCHIOLWYR RHIANT LYWODRAETHWYR

8.1 A fyddech chi'n barod i fynychu Cynhadledd Cymru gyfan am ddiwrnod heb gostau ynghylch rôl Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr?

Byddwn □ Na fyddwn □

8.2 A fyddai'n well gennych:

Diwrnod gwaith □ Dydd Sadwrn □

Dim gwahaniaeth □

8.3 Nodwch unrhyw bynciau y byddech yn dymuno iddynt gael eu trafod mewn Cynhadledd:

Cyfathrebu â rhieni □

Cymorth gan yr awdurdod lleol □

Pryderon mwyaf ynghylch rôl CRhL □

Rhannu llwyddiannau ac arfer dda □

Eraill:.....

.....

.....

9 SYLWADAU YCHWANEGOL YNGHYLCH EICH RÔL FEL CRhL

Yn arbennig, nodwch unrhyw brif faterion y teimlwch i chi gyfrannu iddynt, neu lle buoch yn llwyddiannus.

…….....

…….....

…….....

…….....

…….....

…….....

Diolch am lenwi'r holiadur hwn. Caiff eich sylwadau eu cadw'n gwbl gyfrinachol.

Petai angen rhagor o wybodaeth ar y pwnc hwn arnom, a fyddech yn barod i'n helpu eto? **Byddwn / Na fyddwn**

Enw: …….....

Cyfeiriad: …….....

…….....…

Ffôn: …….. Ebost: …….....

A FYDDECH CYSTAL Â DYCHWELYD YR HOLIADUR WEDI'I LENWI YN YR AMLEN BAROD ERBYN 28 HYDREF AT:

Steve Gullick, Rheolwr y Ganolfan
Canolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, Ysgol Addysg Abertawe,
Athrofa Addysg Uwch Abertawe, Campws Hendrefoelan, Abertawe SA2 7NB
Ffôn: 01792 518609 Ebost:S.E.Gullick@swan.ac.uk